Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Babanod Mochdre

**Heol yr Orsaf**
**Mochdre**
**Conwy**
**LL28 5EF**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2011**

**gan**

**Mr Goronwy Morris**

**O dan gytundeb i**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Babanod Mochdre wedi ei lleoli ym mhentref Mochdre ger Bae Colwyn a chaiff ei chynnal gan Gyngor Bwrdeistref Conwy. Mae'n darparu addysg ar gyfer disgyblion o dair i saith blwydd oed. Mae tua 50% o'r disgyblion ar gofrestr yr ysgol yn dod o ardal sydd dan anfantais economaidd a chymdeithasol. Daw'r holl ddisgyblion o gartrefi lle mae'r Saesneg yn famiaith.

Ar hyn o bryd mae 58 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 13 sydd yn mynychu'r meithrin yn y boreau. Mae gan tua 53% o'r disgyblion yr hawl i brydau ysgol am ddim. Mae'r ffigur hwn yn arwyddocaol uwch na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Dengys y dangosyddion gwaelodlin fod cyrhaeddiad wrth gychwyn yn yr ysgol yn is na chyfartaleddau cenedlaethol a lleol. Mae'r ysgol wedi dynodi 31% o ddisgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), nid oes gan unrhyw un ohonynt ddatganiad o ADY.

Penodwyd y pennaeth presennol ar gyfer Medi 2010. Mae hefyd yn addysgu Blwyddyn 2 am 0.5 o'i hamser. Gwnaed penodiad newydd hefyd ar gyfer athrawes i Flwyddyn 1, hithau hefyd wedi cychwyn yn ei swydd ym Medi 2010. Cafodd yr ysgol ei harolygu diwethaf yn 2005.

Roedd cyllideb unigol fesul disgybl yr ysgol ar gyfer 2010-2011 yn £4,604, sydd yn cymharu gydag uchafswm o £9,816 ac isafswm o £2,909 ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghonwy. Mae cyllideb fesul disgybl yr ysgol y 15fed uchaf allan o'r 61 o ysgolion cynradd yng Nghonwy.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae bron yr holl ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u gallu, diddordebau a'u perfformiad blaenorol;
- mae ethos croesawgar sydd yn sicrhau fod yr holl ddisgyblion yn hapus ac yn ddiogel; ac
- mae'r addysgu yn dda ac mae'r disgyblion yn elwa oddi wrth gwricwlwm diddorol.

**Rhagolygon gwella**

Mae gan yr ysgol rhagolygon da ar gyfer gwelliant oherwydd:

- mae'r pennaeth yn darparu ymdeimlad clir o bwrpas a chyfeiriad;
- mae ffocws eglur ar wella'r ysgol a chodi safonau; ac
- mae gwaith tîm effeithiol ac ymrwymiad tuag at weithio mewn partneriaeth.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach, dylai'r ysgol:

A1 cryfhau'r datblygiad o fedrau ysgrifennu'r disgyblion;

A2 gwella'r safonau mewn Cymraeg ail iaith;

A3 sicrhau cynllunio effeithiol ar gyfer datblygu medrau allweddol y disgyblion, a

A4 sicrhau fod y cyswllt rhwng yr adroddiad hunan arfarnu, blaenoriaethau yn y Cynllun Gwella Ysgol (CGY) a thargedau disgyblion yn eglur.

***Beth sy'n digwydd nesaf?***

*Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu bydd yn dangos sut mae'n mynd i ymdrin â'r argymhellion.*

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag ADY, yn cyflawni'n dda yn y rhan fwyaf o feysydd yn ystod eu hamser yn yr ysgol.

Yn 2010, mae asesiadau statudol athrawon yng nghyfnod allweddol 1 (CA1) yn dynodi fod 73% o'r disgyblion wedi cyflawni'r dangosydd pynciau craidd (DPC), hynny yw, y lefel 2 a ddisgwylir yn y tri phwnc Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cymhariaeth â chyfartaledd y teulu o 63.2% a'r canran cenedlaethol o 81.6%.

Dengys y perfformiad yn CA1 welliant yn y DPC ac ym mhob un o'r tri phwnc ers 2006 ond ychydig o ddirywiad ers 2008. Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn gyson uwch na chyfartaledd y teulu ond yn gyffredinol mae'n is na'r ffigurau cenedlaethol a rhai'r awdurdod lleol (ALl).

O'i chymharu gydag ysgolion sydd â nifer tebyg o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn prydau bwyd ysgol am ddim, mae perfformiad yn y DPC yn gyson yn yr 50% uchaf o ysgolion yng Nghymru. Roedd perfformiad mewn Saesneg yn y 25% uchaf mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf.

Yn gyffredinol, mae nifer y disgyblion sydd yn cyrraedd y lefel 3 uwch mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn is na chyfartaleddau'r teulu a'r rhai cenedlaethol.

Mae cymhariaeth perfformiad bechgyn a merched mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn amrywio. Mewn Saesneg, ar lefel 2 ac uwch, mae perfformiad y bechgyn yn rhagori ar berfformiad y merched am y tair blynedd diwethaf.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd ag ADY yn cyflawni'n dda yn erbyn eu targedau personol ac yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u gallu, eu diddordebau a'u cyrhaeddiad blaenorol.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd da yn unol â'u gallu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda ac yn siarad yn hyderus mewn gwahanol sefyllfaoedd.  O fewn yr ystod eang o alluoedd disgyblion, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn gymwys. Mae hyn yn eu galluogi i gyrchu gwybodaeth ar lefelau priodol o ddealltwriaeth a'i ddefnyddio i wella eu dysgu mewn amrywiaeth o bynciau.  Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau ysgrifennu datblygol. Maent yn ysgrifennu gyda hyder cynyddol, fodd bynnag, ychydig o ddisgyblion sydd yn ysgrifennu'n estynedig yn annibynnol ac mae gan lawer afael ansicr o batrymau sillafu a chystrawen.

Mae gan yr holl ddisgyblion ymagweddau cadarnhaol tuag at ddysgu ac yn mwynhau eu gwersi.  Maent yn uchel eu cymhelliant, yn ymroddgar ac yn awyddus i ddysgu. Ymatebant yn gadarnhaol i'r holl staff.  Maent bron i gyd yn canolbwyntio'n dda ac yn dyfalbarhau gyda'u tasgau a'u gweithgareddau.  O oed cynnar, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n dda yn annibynnol.

Yn gyffredinol, mae medrau iaith Cymraeg y disgyblion yn ddigonol.  Mae mwyafrif y disgyblion yn deall ac yn ymateb yn dda i amrediad o gwestiynau a chyfarwyddiadau syml.  Erbyn diwedd CA1, mae lleiafrif o ddisgyblion yn darllen ac ysgrifennu gyda hyder a dealltwriaeth briodol. Fodd bynnag, mae llawer o ddisgyblion eto i ddatblygu'r medrau angenrheidiol er mwyn defnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau. Mae ymwybyddiaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion o ddiwylliant ac etifeddiaeth Cymru yn dda.

**Lles:  Da**

Mae disgyblion yn uchel iawn eu cymhelliant ac mae ganddynt ymagweddau cadarnhaol tuag at ddysgu.  Maent yn mwynhau'r ystod eang o weithgareddau sydd ar gael ac â balchder yn eu gwaith a'u hysgol.  Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd bod yn iach ac yn fywiog.  Maent yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae ymddygiad y disgyblion yn dda iawn.  Maent yn ymddwyn yn gyfrifol a synhwyrol, gan ddangos parch, gofal a chonsyrn tuag at eraill.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae cyfartaledd presenoldeb y disgyblion yn gyson yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg.  Mae prydlondeb bron yr holl ddisgyblion yn dda.

Teimla'r holl ddisgyblion y cânt eu gwerthfawrogi ac maent yn chwarae rhan weithredol ym mywyd yr ysgol.  Mae aelodau o'r grŵp eco yn rhan weithredol o wneud penderfyniadau ac yn cynrychioli safbwyntiau disgyblion yn dda.  Mae disgyblion yn mwynhau'r amrediad datblygol o weithgareddau a phrofiadau allgyrsiol a ddarperir.  Mae eu medrau datrys problemau a meddwl yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol.  Arddangosa'r disgyblion hŷn ddealltwriaeth dda o fyd gwaith.  Mae hyn, ynghyd â'u cyfraniad i ddigwyddiadau cymunedol, yn sicrhau y cânt eu paratoi'n dda ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu dysgu.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r athrawon yn darparu ystod dda o brofiadau dysgu ysgogol a chyfoethog o fewn a thu hwnt i'r ysgol er mwyn diwallu anghenion yr holl ddisgyblion. Caiff gwersi eu cynllunio'n dda, gan ddefnyddio ystod o weithgareddau diddorol sydd yn cyfrannu'n arwyddocaol at ddealltwriaeth a mwynhad y disgyblion wrth ddysgu. Caiff gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a CA1 eu diwallu'n dda. Mae'r cynllunio o'r cwricwlwm sydd yn seiliedig ar y medrau allweddol yn datblygu'n dda, fodd bynnag, mae diffyg cysondeb i sicrhau datblygiad cynyddol y medrau ar draws yr ystod oedran, yn enwedig o ran medrau ysgrifennu a dwyieithog y disgyblion.

Mae gan yr ysgol ddarpariaeth dda o ran addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a datblygu dealltwriaeth disgyblion o amrywiol faterion fyd-eang, gan gynnwys cwrdd â phobl o rannau eraill o'r byd. Mae'r ysgol wedi cyflawni statws Baner Werdd Eco-Sgolion o ganlyniad i hyrwyddo cynaladwyedd yn llwyddiannus trwy fentrau megis ailgylchu, arbed ynni a byw yn iach.

Mae'r ddarpariaeth a'r cynllunio ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg yn dda. Mae gan yr ysgol gynllun gwaith a pholisi priodol y mae'r athrawon yn dechrau gweithredu'n llwyddiannus yn yr holl ddosbarthiadau. Ar draws yr ysgol, caiff y Gymraeg ei ddefnyddio'n gynyddol mewn llawer o agweddau o fywyd ysgol. Mae'r defnydd o Gymraeg achlysurol gan y rhan fwyaf o oedolion yn datblygu'n dda. Caiff gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o nodweddion hanesyddol a diwylliannol Cymru eu hyrwyddo'n dda yn enwedig mewn digwyddiadau yn gysylltiedig â Dydd Gŵyl Dewi a'r eisteddfod.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn gyson dda ac yn sicrhau caiff y disgyblion eu cymell a'u hysgogi. Arddangosa'r athrawon wybodaeth bynciol cyfoes. Maent yn gyson yn rhannu bwriadau dysgu'r gwersi gyda'r disgyblion ac yn defnyddio ystod eang o strategaethau cwestiynu effeithiol i annog y datblygiad o fedrau meddwl ehangach y disgyblion. Mae gan yr holl staff berthnasau gwaith cadarnhaol gyda'r disgyblion ac mae hyn yn meithrin amgylchedd gwaith da iawn. Gwneir defnydd hynod effeithiol o'r amgylchedd lleol i hyrwyddo medrau creadigol ac ymchwiliol y disgyblion. Caiff staff cynnal dysgu eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi dysgu'r disgyblion a gwnânt gyfraniad arwyddocaol at wella cyflawniad y disgyblion.

Mae athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn darparu adborth llafar a chymorth da. Caiff asesiadau disgyblion ar eu mynediad i'r ysgol eu cofnodi a'u dadansoddi'n ofalus a'u defnyddio'n effeithiol fel meincnodau i fesur cynnydd yn eu herbyn. Mae system effeithiol ar gyfer tracio cynnydd disgyblion yn yr holl feysydd dysgu. Mae marcio'n briodol ac mae athrawon yn gyson hysbysu disgyblion o'r hyn sydd angen iddynt wneud er mwyn gwella eu gwaith. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn rhan weithredol fwriadol o asesu gwaith ei gilydd ac yn medru cynnig ffyrdd i'w wella. Mae adroddiadau i rieni'n fanwl a defnyddiol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a threfnus iawn lle teimla pawb y cânt eu gwerthfawrogi. Mae oedolion a disgyblion yn dangos parch y naill at y llall. Mae rheolau a gweithdrefnau yn gadarn ar draws yr ysgol. Caiff manteision byw yn iach eu hyrwyddo'n dda ar draws y cwricwlwm ac mewn gweithgareddau allgyrsiol.

Gweithia asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol mewn partneriaeth effeithiol â'r ysgol, gan sicrhau y diwellir anghenion yr holl ddisgyblion yn dda.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu.

Mae'r ysgol yn dynodi anghenion dysgu disgyblion yn effeithiol wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol. Darperir cefnogaeth dda a thasgau dysgu priodol er mwyn diwallu'r anghenion hyn.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol gydag ethos cadarnhaol iawn. Caiff yr holl ddisgyblion eu gwerthfawrogi a chânt fynediad cyfartal i holl feysydd y ddarpariaeth. Mae'r ysgol yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn weithredol trwy ei rhaglenni addysg bersonol a chymdeithasol, addysg grefyddol a lles. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad ysbrydol disgyblion trwy gyfleoedd i fyfyrio ac addoli. Mae athrawon yn atgyfnerthu'r egwyddorion hyn yn effeithiol, yn enwedig trwy hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o amrywiaeth.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd diogel i ddisgyblion ddysgu a chwarae. Caiff yr adeiladau a'r tir eu cynnal a'u cadw'n dda ac maent yn darparu amgylchedd addas ar gyfer chwarae a dysgu. Mae'r ystafelloedd yn lliwgar, yn berthnasol ac ysgogol ac yn cefnogi a gwella dysgu'r disgyblion.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn dda yn yr ysgol. Mae'r pennaeth a benodwyd yn ddiweddar yn darparu arweinyddiaeth effeithiol ac, mewn amser cymharol fyr, wedi datblygu ymdeimlad cryf o weithio fel tîm gyda'r staff a'r llywodraethwyr yn rhannu ymdeimlad cyffredin o bwrpas a chyfeiriad. Caiff hyn ei adlewyrchu'n dda yn yr ethos cadarnhaol iawn ar draws yr ysgol a lle mae disgwyliadau uchel o ran safonau a lles yn amlwg.

Ffocws y cynllunio strategol yw gwella'r ysgol a chodi safonau. Mae'r pennaeth yn dadansoddi gwybodaeth asesu'n ofalus er mwyn dynodi meysydd ar gyfer gwelliant.

Mae disgrifiadau swydd yn gosod rolau a chyfrifoldebau'r staff allan yn eglur. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn darparu cyfleoedd da i bawb trafod cynnydd ac i adlewyrchu ar a rhannu arfer da. Mae cefnogaeth i'r athrawes sydd newydd gymhwyso yn bwrpasol ac effeithiol.

Mae gan y corff llywodraethu ddealltwriaeth dda o'i gyfrifoldebau. Mae gan y llywodraethwyr ddiddordeb cryf ym mywyd beunyddiol yr ysgol ac maent yn gefnogol iawn o'r pennaeth a'r staff. Maent yn dechrau datblygu gwell dealltwriaeth o sut mae'r ysgol yn perfformio trwy'r trefniadau monitro a gyflwynwyd yn ddiweddar a thrwy drafod data perfformiad. Maent yn gweithredu'n effeithiol fel cyfeillion beirniadol.

Mae'r ysgol yn diwallu blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn dda. Rhoddwyd sylw priodol at ddatblygiad y Cyfnod Sylfaen o ddysgu, asesu ac i ddysgu a gweithio mewn partneriaeth.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn ddigonol. Mae'r pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr yn ymrwymedig i gynnal a gwella safonau. Caiff data perfformiad ei ddadansoddi'n ofalus er mwyn dynodi pa mor dda mae disgyblion yn cyflawni ac unrhyw tanberfformio sydd yn amlwg. Defnyddir arfarnu sy'n seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol yn effeithiol wrth asesu'r addysgu a'r dysgu. Mae trefniadau ffurfiol priodol mewn lle i geisio safbwyntiau rhieni a phartïon eraill sydd â diddordeb ac ystyrir eu safbwyntiau'n ofalus.

Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn dueddol o fod yn ddisgrifiadol yn hytrach nag yn arfarniadol ac mae diffyg beirniadaeth clir a chryno ar ddeilliannau dysgu. Nid yw'n dynodi meysydd ar gyfer datblygiad yn eglur; felly, nid yw'r cysylltiad rhwng yr adroddiad hunan arfarnu, blaenoriaethau yn y CGY a thargedau disgyblion ar gyfer gwella eu gwaith yn eglur. Fodd bynnag, dengys tystiolaeth fod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r targedau a osodir ar eu cyfer. Mae'r gost, yr amserlen a chyfrifoldebau staff wrth ymateb i bob blaenoriaeth yn eglur. Gwnaed cynnydd da wrth ymateb i'r argymhellion a ddynodwyd yn yr arolygiad blaenorol.

Mae'r corff llywodraethu yn rhan weithredol lawn wrth drafod, rhoi sylwadau a herio canfyddiadau'r adroddiad hunan arfarnu.

Rhydd yr ysgol sylw da i reoli perfformiad a rhoddir pob cyfle i aelodau'r staff gaffael medrau newydd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaethau gyda'r rhieni a'r gymuned leol yn dda. Mae nifer o rieni yn gwirfoddoli i helpu yn yr ysgol a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar ddysgu'r disgyblion. Trwy ei gweithgareddau codi arian, mae'r Gymdeithas Rhieni/Athrawon llwyddiannus yn darparu adnoddau defnyddiol ychwanegol sydd yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Mae cysylltiadau da gyda'r ysgol iau leol ac mae'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo disgyblion yn effeithiol, yn enwedig o ran eu lles. Mae'r trefniadau ar gyfer rhannu cynorthwyydd addysgu gyda'r ysgol iau yn gweithio'n dda.

Mae partneriaethau da o fewn y teulu lleol o ysgolion a'r coleg addysg uwch. Mae ymglymiad yr ysgol o fewn ei chymuned dysgu proffesiynol yn effeithiol ac mae cymedroli gwaith disgyblion fel clwstwr o ysgolion lleol yn galluogi staff gael gwell dealltwriaeth o'r safonau a ddisgwylir.

Mae'r cysylltiadau gydag amrywiol elusennau ac asiantaethau yn hyrwyddo lles y disgyblion yn dda.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r rheolaeth o adnoddau yn dda. Mae gan yr holl athrawon wybodaeth ac arbenigedd priodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae lleoli effeithiol o'r staff yn cyfrannu at ddatblygiad llwyddiannus o brofiadau dysgu'r disgyblion. Gwna'r athrawon ddefnydd da o amser cynllunio, paratoi ac asesu (CPA) a glynir at y gofynion statudol. Caiff cynllun adnoddau cyllideb yr ysgol ei gysylltu gyda'r CGY ac mae'n blaenoriaethu meysydd ar gyfer datblygu strategaethau. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn adolygu'r blaenoriaethau hyn yn rheolaidd.

Rhydd yr ysgol werth da am arian yn nhermau deilliannau disgyblion a'i defnydd o ariannu.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Dychwelwyd 13 o holiaduron rhieni gyda'r holl ohonynt yn mynegi'r farn eu bod yn fodlon neu fodlon iawn â'r ysgol. Roeddent i gyd yn cytuno fod eu plant yn hoffi'r ysgol, yn teimlo'n ddiogel ac yn ymgartrefu'n dda. Creda'r holl rieni bod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. Dywedant fod y staff yn disgwyl i'r plant weithio'n galed ac i wneud eu gorau. Dywed yr holl rieni fod plant yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol a chânt eu trin yn deg a gyda pharch. Dywed y rhan fwyaf o rieni fod y plant yn derbyn cefnogaeth briodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. Cred y rhan fwyaf o rieni fod eu plant yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf. Teimla'r holl rieni y cânt eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plant ac mae'r rhan fwyaf yn deall gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer delio gyda chwynion. Teimla'r holl rieni fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda neu yn dda iawn.

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Gan fod hon yn ysgol fabanod, nid oedd unrhyw holiaduron oddi wrth y disgyblion.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Goronwy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Mervyn Lloyd Jones | Arolygydd Tîm |
| Gwynoro Jones | Arolygydd Lleyg |
| Helen Vernon | Arolygydd Cymheiriaid |
| Sarah Roberts | Enwebai'r Ysgol |

Contractwr:
EPPC/Severn Crossing Cyf
Swît F2A T  Britannic
Llandarsi
Castell-nedd  SA10 6JQ

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |